

IS-DDEDDFAU CYNGOR BWRDEISTREF SIROL WRECSAM

Aciwbigo, tatwio, lliwio croen yn lled-barhaol, tyllu cosmetig ac electrolysis

Is-ddeddfau er mwyn sicrhau glendid y canlynol: eiddo a gofrestrwyd dan adran 14(2) neu 15(2) Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1982, neu o dan y ddwy adran hynny; ffitiadau mewn eiddo o'r fath; pobl sydd wedi'u cofrestru dan adran 14(1) neu 15(1) y Ddeddf, neu o dan y ddwy adran hynny, a phobl sy'n eu cynorthwyo; ac er mwyn sicrhau bod offer, deunyddiau a chyfarpar a ddefnyddir mewn cysylltiad ag ymarfer aciwbigo neu fusnes tatwio, lliwio croen yn lled-barhaol, tyllu cosmetig neu electrolysis yn cael eu glanhau ac, i'r graddau y bo'n briodol, yn cael eu sterileiddio. Gwnaed yr is-ddeddfau hyn gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Wreccsam yn unol ag adrannau 14(7) neu 15(7) y Ddeddf, neu'n unol â'r ddwy adran hynny.

1) Dehongli

(i) Yn yr is-ddeddfau hyn, oni fydd y cyd-destun yn mynnu fel arall -

ystyr "y Ddeddf" yw Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1982;

ystyr "anifail" yw unrhyw ymlusgiad, mamal a phob creadur byw arall sy'n perthyn i fyd yr anifeiliaid;

ystyr "cleient" yw unrhyw un sy'n cael triniaeth;

ystyr "offeryn tyllu hylan" yw offeryn y mae unrhyw ran ohono sy'n cyffwrdd â chleient wedi'i wneud i'w ddefnyddio ar gyfer cleient unigol, a hwnnw'n offeryn di-haint, tafladwy ac sydd wedi'i osod â gemwaith tyllu a ddarparwyd mewn deunydd pacio sy'n dangos ar gyfer pa ran o'r corff y mae wedi'i fwriadu, ac sydd wedi'i ddylunio i dyllu naill ai -

(a) y llabed

(b) cartilag gwastad uchaf y glust, ac/neu

(c) y naill ochr neu'r llall i'r trwyn yn rhan ganol y rhych uwchben y ffroen;

ystyr "gweithredwr" yw unrhyw berson sy'n rhoi triniaeth, gan gynnwys perchennog;

ystyr "eiddo" yw unrhyw eiddo sydd wedi'i gofrestru dan adrannau 14(2) neu 15(2) y Ddeddf;

ystyr "perchennog" yw unrhyw berson sydd wedi'i gofrestru dan adrannau 14(1) neu 15(1) y Ddeddf;

ystyr "triniaeth" yw unrhyw weithred i wneud gwaith aciwbigo, tatwio, lliwio croen yn lled-barhaol, tyllu cosmetig neu electrolysis;

ystyr "man triniaeth" yw unrhyw ran o'r eiddo lle rhoddir triniaeth i gleientiaid.

(ii) Mae Deddf Dehongli 1978 yn gymwys i ddehongli'r is-ddeddfau hyn fel y mae'n gymwys i ddehongli Deddf Seneddol.

Glendid yr eiddo a ffitiadau

2) Er mwyn sicrhau glendid eiddo a ffitiadau yn yr eiddo hwnnw, rhaid i berchennog sicrhau -

(i) bod unrhyw wal fewnol, drws, ffenestr, pared, llawr, gorchudd llawr neu nenfwd yn cael eu cadw'n lân ac mewn cyflwr digon da i ganiatáu iddynt gael eu glanhau'n effeithiol;

(ii) bod unrhyw ddeunydd gwastraff, neu sbwriel arall sy'n deillio o driniaeth, yn cael ei roi, yn syth ar ôl ei ddefnyddio, mewn cynhwysydd gwastraff priodol gyda chaead sy'n gweithio gyda phedal, ac yn cael ei drin a'i daflu yn unol â deddfwriaeth a chanllawiau perthnasol yn ôl cyngor yr awdurdod lleol;

(iii) bod unrhyw nodwydd, rasel neu eitem finiog arall a ddefnyddiwyd yn ystod triniaeth yn cael ei thaflu i gynhwysydd cyfarpar miniog sy'n cael ei gadw allan o gyrraedd cleientiaid a'r cyhoedd, yn unol â deddfwriaeth a chanllawiau perthnasol yn ôl cyngor yr awdurdod lleol;

(iv) bod unrhyw ddodrefn neu ffitiad yn yr eiddo yn cael eu cadw'n lân ac mewn cyflwr digon da i ganiatáu iddynt gael eu glanhau'n effeithiol;

(v) bod wyneb unrhyw fwrdd, soffa neu sedd a ddefnyddir gan gleient yn y man triniaeth a allai gael ei halogi â gwaed neu hylifau corfforol eraill, ac unrhyw wyneb lle rhoddir nodwydd, offeryn neu gyfarpar arno yn syth cyn y driniaeth, yn wyneb anhydraiddd llyfn sy'n cael ei lanhau a'i ddiheintio -

(a) yn syth ar ôl ei ddefnyddio; ac

(b) ar ddiwedd pob diwrnod gwaith

(vi) bod unrhyw fwrdd, soffa, neu eitem arall o ddodrefn a ddefnyddir yn ystod triniaeth yn cael eu gorchuddio gan ddalen bapur dafladwy sy'n cael ei newid ar gyfer pob cleient;

(vii) na chaniateir bwyta nac yfed yn y man triniaeth a bod hysbysiad neu hysbysiadau sy'n dweud "Dim Bwyta nac Yfed" yn cael eu harddangos mewn lle amlwg yno;

(viii) bod anifeiliaid yn cael eu gwahardd o'r eiddo, ac eithrio anifeiliaid a ddefnyddir gan bobl â nam ar eu golwg ac/neu eu clyw.

3) (i) Yn ddarostyngedig i Is-ddeddf 3(ii), pan fydd eiddo wedi'i gofrestru dan adrannau 14(2) (aciwbigo) neu 15(2) (tatŵio, lliwio croen yn lled-barhaol, tyllu cosmetig ac electrolysis) y Ddeddf, rhaid i'r perchennog sicrhau y rhoddir triniaeth mewn man triniaeth a ddefnyddir yn unswydd ar gyfer rhoi triniaeth;

(ii) Nid yw Is-ddeddf 3(i) yn gymwys os mai'r unig driniaeth fydd yn cael ei rhoi mewn eiddo o'r fath yw tyllu llabed neu gartilag gwastad uchaf y glust gan ddefnyddio offeryn tyllu hylan.

- 4) (i) Yn ddarostyngedig i Is-ddeddf 4(ii), pan fydd eiddo wedi'i gofrestru dan adrannau 15(2) (tatwio, lliwio croen yn lled-barhaol, tyllu cosmetig ac electrolysis) y Ddeddf, rhaid i'r perchennog sicrhau bod wyneb anhydraidd llyfn ar lawr y man triniaeth;

(ii) Nid yw Is-ddeddf 4(i) yn gymwys os mai'r unig driniaeth fydd yn cael ei rhoi mewn eiddo o'r fath yw (a) tyllu llabed neu gartilag gwastad uchaf y glust gan ddefnyddio offeryn tyllu hylan; ac/neu (b) electrolysis.

Glanhau ac, i'r graddau y bo'n briodol, sterileiddio nodwyddau, offer, gemwaith, deunyddiau a chyfarpar

- 5) Er mwyn sicrhau bod nodwyddau, offer, gemwaith, deunyddiau a chyfarpar a ddefnyddir mewn cysylltiad â thriniaeth yn cael eu glanhau ac, i'r graddau y bo'n briodol, eu sterileiddio, rhaid i weithredwr sicrhau -

(i) bod unrhyw wisg, clogyn neu ddilledyn amddiffynnol arall, papur neu orchudd arall, tywel, lliain neu unrhyw beth arall a ddefnyddir yn ystod triniaeth-

(a) yn lân ac mewn cyflwr da ac, i'r graddau y bo'n briodol, yn ddi-haint;

(b) heb gael ei ddefnyddio o'r blaen mewn cysylltiad â chleient arall onid yw wedi'i wneud o ddefnydd y gellir ei lanhau, ac sydd wedi cael ei lanhau'n iawn ac, i'r graddau y bo'n briodol, ei sterileiddio'n iawn.

(ii) bod unrhyw nodwydd, rasel neu eitem finiog arall a ddefnyddir mewn triniaeth yn un untro a thafladwy;

(iii) bod unrhyw nodwydd untro, offeryn metel, neu offeryn neu gyfarpar arall a ddefnyddir mewn triniaeth neu ar gyfer trafod nodwydd, offeryn neu gyfarpar o'r fath, ac unrhyw ran o offeryn tyllu hylan sy'n cyffwrdd cleient, yn ddi-haint;

(iv) mai dim ond raseli diogel untro a thafladwy a ddefnyddir;

(v) os yw jeli petrolewm neu gel iro am gael ei roi ar groen cleient, mai digon ar gyfer un cleient yn unig sy'n cael ei dynnu o'r cynhwysydd stoc gyda sbatwla glân, a'i roi mewn cynhwysydd sydd naill ai'n cael ei daflu ar ddiwedd pob triniaeth neu'n cael ei lanhau a'i sterileiddio cyn ei aildefnyddio;

(vi) bod bandiau elastig neu fagiau plastig a ddefnyddir ar beiriannau tatwio yn cael eu taflu ar ôl pob cleient;

(viii) bod unrhyw emwaith a ddefnyddir ar gyfer tyllu cosmetig gydag offeryn tyllu hylan yn ddi-haint;

(viii), mai dim ond pigment anadweithiol di-haint sydd wedi'i roi mewn potiau untro neu sydd wedi'i becynnu ymlaen llaw mewn ffiolau untro a gaiff ei ddefnyddio i datwio neu liwio croen yn lled-barhaol;

(ix) bod unrhyw gynhwysydd a ddefnyddir i ddal lliw ar gyfer tatwio neu liwio croen yn lled-barhaol yn cael ei ddefnyddio ar gyfer un cleient yn unig a'i daflu, ynghyd ag unrhyw bigment sydd heb ei defnyddio, ar ddiwedd pob triniaeth.

6) Er mwyn sicrhau bod nodwyddau, offer, gemwaith, deunyddiau a chyfarpar a ddefnyddir mewn cysylltiad â thriniaeth yn cael eu glanhau ac, i'r graddau y bo'n briodol, eu sterileiddio, rhaid i'r perchennog ddarparu -

(i) cyfleusterau a chyfarpar digonol ar gyfer -

(a) glanhau a diheintio, gan gynnwys sinc pob pwrpas gyda chyflenwad digonol a chyson o ddŵr tap poeth ac oer yn yr eiddo, sydd ar wahân i'r basn golchi dwylo sy'n ofynnol dan Is-ddeddf 8(i). Dylai'r sinc pob pwrpas hwn gael ei leoli y tu allan i'r man triniaeth lle bynnag y bo'n bosibl; a

(b) sterileiddio, oni bai mai dim ond eitemau sydd wedi eu sterileiddio'n barod sy'n cael eu defnyddio. Rhaid i bob cyfarpar sterileiddio gael ei drin a'i gynnal a'i gadw ar ysbeidiau priodol a'i brofi o bryd i'w gilydd gan y gweithredwr i sicrhau ei fod yn gweithio'n effeithlon. Rhaid i gofnodion cylchoedd cynnal a chadw, trin, profi a gweithredu gael eu cadw yn yr eiddo tan y dyddiad sy'n dod chwe mis ar ôl i'r offer gael ei ddinistrio neu ei daflu.

(ii) pwyntiau nwy digonol a diogel ac allfeydd socedi trydanol digonol a diogel;

(iii) man storio glân ac addas sy'n osgoi halogi'r eitemau, nodwyddau, offer a chyfarpar a nodir yn Is-ddeddf 5(i), (ii), (iii), (iv), (v), (vi), (vii), (viii) a (ix).

Glendid gweithredwyr

7) Er mwyn sicrhau glendid gweithredwyr, rhaid i'r perchennog sicrhau bod y gweithredwr -

(i) yn cael hyfforddiant ar dechnegau hylan priodol i ddadhalogi'r dwylo, ac yn golchi ei ddwylo yn syth cyn rhoi triniaeth i unrhyw gleient;

(ii) yn cadw ei ddwylo a'i ewinedd yn lân ac yn cadw ei ewinedd yn fyr ac yn rhydd rhag unrhyw farnais ewinedd, addurn ewinedd neu unrhyw ffurf ar orchudd ewinedd;

(iii) yn cadw unrhyw friw agored ar ran noeth o'r corff o dan orchudd anhydraid effeithiol;

(iv) yn gwisgo menig llawfeddygol tafladwy sy'n ffitio'n iawn ac nad ydynt wedi cael eu defnyddio o'r blaen gyda chleient arall, oni fydd yn rhoi triniaeth aciwbigo mewn amgylchiadau gwahanol i'r rhai a ddisgrifir yn Is-ddeddf 10;

(v) yn gwisgo gwisg, clogyn neu ddilledyn amddiffynnol sy'n lân ac y gellir ei olchi ac, i'r graddau y bo'n briodol, yn ddi-haint, neu fel arall, yn gwisgo gorchudd tafladwy na ddefnyddiwyd o'r blaen mewn cysylltiad â chleient arall;

(vi) yn ymatal rhag ysmegu na bwyta nac yfed yn y man triniaeth.

8) Yn ddarostyngedig i Is-ddeddf 9, er mwyn sicrhau glendid gweithredwyr, rhaid i'r perchennog ddarparu -

(i) basnau golchi dwylo addas a digonol gyda thapiau nad ydynt yn cael eu gweithredu â llaw, sydd wedi eu lleoli'n briodol at ddefnydd gweithredwyr yn unig, gan gynnwys cyflenwad digonol a chyson o ddŵr poeth ac oer glân, hylif sebon a thyweli papur wedi'u storio mewn dosbarthwr ar wal wrth ymyl y basn golchi dwylo. Dylai cyfarwyddiadau golchi dwylo gael eu harddangos yn glir wrth ymyl basnau o'r fath;

(ii) man glanweithiol addas a digonol ar gyfer gweithredwyr.

9) Os mai'r unig driniaeth y mae gweithredwr yn ei rhoi yw tyllu llabed neu gartilag gwastad uchaf y glust gan ddefnyddio offeryn tyllu hylan, a bod y perchennog yn ddarparu naill ai gel dwylo hylan neu hylif glanhau, nid oes rhaid i'r basnau golchi dwylo y mae'r perchennog yn eu ddarparu fod at ddefnydd y gweithredwr yn unig.

10) Rhaid i'r perchennog sicrhau mai dim ond gweithredwr sydd wedi golchi ei ddwylo yn syth cyn rhoi triniaeth aciwbigo i unrhyw gleient sy'n cael gwneud y gwaith hwnnw. Pan fydd gweithredwr yn rhoi triniaeth aciwbigo, rhaid i'r perchennog sicrhau bod y gweithredwr yn gwisgo menig llawfeddygol tafladwy sy'n ffitio'n iawn ac sydd heb gael eu defnyddio o'r blaen gyda chleient arall -

(i) os yw'r cleient yn gwaedu neu os oes ganddo friw agored ar ran noeth o'i gorff; neu


(ii) os yw'n hysbys bod y cleient wedi'i heintio â feirws sy'n cael ei gludo yn y gwaed; neu

(iii) os oes gan y gweithredwr friw agored ar ei law; neu

(iv) os yw'r gweithredwr yn trafod eitemau eraill a allai fod wedi'u halogi â gwaed neu hylifau corfforol eraill.

11) Dylai unigolyn sydd wedi'i gofrestru'n unol ag adrannau 14 (aciwbigo) neu 15 (tatŵio, lliwio croen yn lled-barhaol, tyllu cosmetig ac electrolysis) y Ddeddf ac

sy'n ymweld â phobl ar gais i roi triniaeth iddynt, gadw at y gofynion sy'n ymwneud â gweithredwyr yn Is-ddeddfau 5(i) a 7(i).

A handwritten signature in black ink is positioned to the left of a red circular seal with a serrated edge. The seal contains faint, illegible text and a date stamp '16/12/12' at the bottom right.

Llofnod a sêl y Cyngor

Mae'r is-ddeddfau uchod wedi eu cadarnhau gan Weinidogion Cymru dan adran 236 Deddf Llywodraeth Leol 1972 ar 8 Mai 2012, ac yn dod yn weithredol ar 8 Mehefin 2012.

Llofnod: David Worthington, Pennaeth yr Is-Adran Diogelu Iechyd, Llywodraeth Cymru dan awdurdod y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, un o Weinidogion Cymru

SYLWCH – NID YW'R CANLYNOL YN RHAN O'R IS-DEDDFAU

Rhaid i berchnogion gymryd pob cam rhesymol i sicrhau bod pobl sy'n gweithio yn yr eiddo yn cydymffurfio â'r is-ddeddfau hyn. Mae adran 16(9) Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1982 yn nodi bod rhaid i unigolyn cofrestredig arddangos copi o'r is-ddeddfau hyn a chopi o unrhyw dystysgrif gofrestru sydd wedi ei rhoi iddo dan Ran VIII y Ddeddf, mewn lle amlwg yn yr eiddo. Bydd unrhyw unigolyn sy'n mynd yn groes i adran 16(9) yn euog o drosedd ac yn agored ar gollfarn ddiannod i ddirwy na fydd yn uwch na lefel 2 ar y raddfa safonol (gweler adran 16(10)).

Mae adran 16 Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1982 hefyd yn nodi y bydd unrhyw unigolyn sy'n torri'r is-ddeddfau hyn yn euog o drosedd ac yn agored ar gollfarn ddiannod i ddirwy na fydd yn uwch na lefel 3 ar y raddfa safonol. Os bydd unigolyn a gofrestrwyd dan Ran VIII y Ddeddf yn cael ei ddyfarnu'n euog o dorri'r is-ddeddfau hyn, gallai'r Llys, yn lle neu'n ychwanegol at osod dirwy, orchymyn i gofrestriad yr unigolyn gael ei atal dros dro neu ei ddiddymu. Gallai llys sy'n gorchymyn atal dros dro neu ddiddymu cofrestriad unigolyn hefyd orchymyn atal dros dro neu ddiddymu cofrestriad yr eiddo y cyflawnwyd y drosedd ynddo, os mai'r unigolyn a ddyfarnwyd yn euog o'r drosedd yw deiliad yr eiddo hwnnw. Mae'n amddiffyniad i'r sawl sydd wedi'i gyhuddo dan is-adrannau perthnasol adran 16 brofi ei fod wedi cymryd pob rhagofal rhesymol ac wedi arfer pob diwydrwydd dyladwy er mwyn osgoi cyflawni'r drosedd.

Nid oes unrhyw beth yn yr is-ddeddfau hyn yn cwmpasu ymarfer aciwbigo neu fusnes tatŵio, lliwio croen yn lled-barhaol, tyllu cosmetig nac electrolysis gan, neu dan oruchwyliaeth, unigolyn sydd wedi'i gofrestru fel ymarferydd meddygol, nac yn cwmpasu eiddo lle mae ymarfer aciwbigo neu fusnes tatŵio, lliwio croen yn lled-barhaol, tyllu cosmetig neu electrolysis yn cael ei gyflawni gan, neu dan oruchwyliaeth, unigolyn o'r fath.

Nid oes unrhyw beth yn yr is-ddeddfau hyn yn cwmpasu ymarfer aciwbigo gan, neu dan oruchwyliaeth, unigolyn sydd wedi'i gofrestru fel deintydd, nac yn cwmpasu eiddo lle mae ymarfer aciwbigo yn cael ei gyflawni gan, neu dan oruchwyliaeth, unigolyn o'r fath.

Y darpariaethau yn adran 14 yw'r darpariaethau deddfwriaethol sy'n berthnasol i aciwbigo. Mae'r darpariaethau sy'n berthnasol i driniaethau ar wahân i aciwbigo i'w gweld yn adran 15.

Dyma'r gwahaniaethau allweddol yn y modd y mae'r gofynion yn gymwys mewn perthynas â'r amrywiol driniaethau:-

- Mae'r cyfeiriadau yn y testun rhagarweiniol at ddarpariaethau adran 14 (aciwbigo) Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1982 yn gymwys i aciwbigo yn unig.
- Nid yw'r cyfeiriadau yn y testun rhagarweiniol at ddarpariaethau adran 15 (tatŵio, lliwio croen yn lled-barhaol, tyllu cosmetig ac electrolysis) Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1982 yn gymwys i aciwbigo.

- Mae'r cyfeiriadau yn Is-ddeddf 1(i), yn y diffiniad o "eiddo", at ddarpariaethau adran 14 (aciwbigo) yn gymwys i aciwbigo yn unig.
- Nid yw'r cyfeiriadau yn Is-ddeddf 1(i), yn y diffiniad o "eiddo", at ddarpariaethau adran 15 (tatwio, lliwio croen yn lled-barhaol, tyllu cosmetig ac electrolysis) yn gymwys i aciwbigo.
- Mae'r gofyniad yn Is-ddeddf 3 i driniaeth gael ei rhoi mewn man triniaeth a ddefnyddir yn unswydd ar gyfer rhoi triniaeth, yn gymwys i aciwbigo, tatwio, lliwio croen yn lled-barhaol, tyllu cosmetig ac electrolysis, ond nid i dyllu llabed na chartilag gwastad uchaf y glust gan ddefnyddio offeryn tyllu hylan.
- Mae'r gofyniad yn Is-ddeddf 4 bod rhaid cael wyneb anhydraidd llyfn ar lawr y man triniaeth yn gymwys i datwio, lliwio croen yn lled-barhaol a thyllu cosmetig, ond nid i aciwbigo, tyllu llabed neu gartilag gwastad uchaf y glust gan ddefnyddio offeryn tyllu hylan.
- Mae'r gofyniad sy'n ymwneud â bandiau elastig a bagiau plastig yn Is-ddeddf 5(vi) yn gymwys i datwio.
- Mae'r gofyniad sy'n ymwneud â gemwaith yn Is-ddeddf 5(viii) yn gymwys i dyllu cosmetig.
- Mae'r gofynion sy'n ymwneud â lliw neu gynhwysydd a ddefnyddir i ddal lliw i'w ddefnyddio ar gyfer triniaeth yn Is-ddeddf 5(viii) a (ix) yn gymwys i datwio a lliwio croen yn lled-barhaol.
- Nid yw'r gofyniad yn Is-ddeddf 7(iv) bod gweithredwr yn gwisgo menig llawfeddygol tafladwy sy'n ffitio'n iawn ac nad ydynt wedi cael eu defnyddio o'r blaen gyda chleient arall yn gymwys i aciwbigo, ac eithrio yn yr amgylchiadau a ddisgrifir yn Is-ddeddf 10.
- Mae darpariaethau Is-ddeddf 9 mewn perthynas â chyfleusterau ymolchi yn gymwys i dyllu llabed neu gartilag gwastad uchaf y glust gan ddefnyddio offeryn tyllu hylan.
- Nid yw'r is-ddeddfau yn gymwys i (i) triniaeth datwio, lliwio croen yn lled-barhaol, tyllu cosmetig ac electrolysis sy'n cael ei chyflawni gan, neu dan oruchwyliaeth, ymarferydd meddygol (adran 15(8) y Ddeddf) nac i (ii) triniaeth aciwbigo a gyflawnir gan, neu dan oruchwyliaeth, ymarferydd meddygol neu ddeintydd (adran 14(8) y Ddeddf).